

Hen Argraffydd o Lanrwst gan Stan Wicklen

BLlanrwst efo marwolaeth Mr Edward 'Ted' Jennings o Regent's Park, Llanrwst ym mis Mawrth 2002, ac yntau'n 92 mlwydd oed. Roedd Ted Jennings yn argraffydd yn Willow Street, Llanrwst am dros drigain mlynedd a daliodd at ei grefft tan yn 75 mlwydd oed – cymeriad hoffus a chymdeithasol ac yn adnabyddus trwy'r ardal.

Gadawodd Ted Jennings yr ysgol yn bedair ar ddeg oed i fod yn brentis yn hen swyddfa argraffu Lloyd Roberts yn rhif 16 Station Road, Llanrwst. Adnabyddid yr argraffydd fel swyddfa Afon Cedron o achos yr afon fach a redai o dan y ffordd o gyfeiriad y Swyddfa Bost. Pan ddechreuodd ar ei yrfa fel prentis yn 1923, ei gyflog oedd pum swllt (25c) yr wythnos, gyda chodiad o swllt am bob blwyddyn o wasanaeth. Ei oriau fel prentis oedd o naw y bore tan hanner dydd ac un tan bedwar o'r gloch, toriad o hanner awr ac yna ymlaen tan saith o'r gloch yr hwyr, a felly bob dydd am bum diwrnod Gweithiai hefyd ar ddydd Sadwrn o naw y bore tan un o'r gloch yn y prynhawn. Roedd y cytundeb rhwng y cyflogwr a'i brentis am bum mlynedd, gyda dwy flynedd ychwanegol fel 'improver'.

Dechreuodd John Lloyd Roberts yn 1878 pan ddaeth fel argraffydd ifanc (a ddysgodd ei grefft yn swyddfa argraffu y *North Wales Chronicle*, Bangor) i Lanrwst i weithio yng ngwasg Gwilym Cowlyd (W. J. Roberts) yn Heol Watling yn y dref. Gwnaeth y cysodydd ifanc dwy ar hugain oed argraff ar y dref heblaw gweithio ar law-wasg Gwilym Cowlyd. O fewn byr amser roedd ei enw wedi'i gysylltu yn rhamantus â nith Gwilym, sef Anne, oedd yn byw yn nhyddfa Gwilym, ei hen gartref yn Ardda, uwch Trefriw. Y mae'n amlwg bod Gwilym Cowlyd yn anhapus gyda Lloyd Roberts a'r cysylltiad â'i nith, er bod y fam yn ddigon bodlon â'r trefniant, a chododd hwn gwerly yn y teulu. Beth bynnag am hynny, aeth Lloyd Roberts ymlaen i briodi Anne, a bu'r undeb yn un hapus.

O achos yr anghydfod rhwng Gwilym a Lloyd Roberts, ac hefyd hynodwydd y bardd a'r argraffydd byr, ni fu cydweithio fel crefftwyr yn y swyddfa yn Heol Watling. Bu hyn yn sbardun i John Lloyd Roberts fentro ar ei liwt ei hun fel argraffydd.

Yn yr 1880au roedd Llanrwst yn lle prysur, yn arbennig felly ar ddiwrnod marchnad pan ddeuai'r ffermwyr a'u hanifeiliaid ar hyd strydoedd y dref. Canolfan y prysurdeb hwn oedd y sgwâr a'r hen Neuadd y Dref, a dyma'r fan lle sefydlodd Lloyd Roberts ei wasg, o fewn un o'r 'cubicles' yn yr hen neuadd. Yr oedd y 'cubicles' hyn ar hyd y dramwyfa ar lawr cyntaf y neuadd, ac ar y llawr neu waelod y neuadd roedd marchnad y ffermwyr lle gwerthid eu



Ted Jennings yn cysodi a'i law, y *Columbian* yn y cefn.

cynnyrch – hadau, grawn a thebyg. Fel pob 'cubicle' arall ar y llawr cyntaf roedd wedi'i rhannu fel ystafell a chlo arni, gyda ffenestri yn agor ar y sgwâr oddi isod. Dyma oedd swyddfa argraffu Lloyd Roberts.

Ar ôl dechreuad ar raddfa fechan, gyda llaw-wasg ac ychydig gasau o deip, tyfodd busnes yr argraffydd ifanc trwy ei ddiwydrwydd a dechreuodd ymosod ar ddiwydiant argraffwyr eraill Llanrwst, lle roedd o leiaf bedwar wrth eu gwaith, yn cynnwys Gwilym Cowlyd. Yn 1897 prynodd Lloyd Roberts rai o gelfi ei hen feistr pan aeth hwnnw i ddyled a chael ei droi allan o Cowlyd House yn Stryd Watling. Y tro cyntaf, yn ôl y papur Cymraeg *Y Gwalia*, i rywun gael ei roi ar y palmant gyda'i eiddo gan y beili.

Creodd Lloyd Roberts fusnes da iddo'i hun a chafodd enw fel argraffydd gofalus ac un y gellid dibynnu arno. Datblygodd y wasg a phrynodd fwy o beiriannau. Symudodd i adeiladau mwy yn 16 Station Road, Llanrwst ac arhosodd yn y safle yma fel argraffydd am hanner can mlynedd.

Heblaw y 'jobbing' masnachol a ddisgwylir mewn tref brysur fel Llanrwst, daliodd Lloyd Roberts i wasanaethu'r gymdeithas farddonol leol. Argraffodd nifer o lyfrau bach o gerddi Cymraeg, ac hefyd ail-argraffu ychydig o waith Gwilym Cowlyd, fel *Cerddi'r Eryri* ac eraill. Dilynodd lwybrau a thraddodiad Gwilym Cowlyd trwy gefnogi Gŵyl Arwest Geirionydd – y gwrth-eisteddfodfa sefydlwyd gan y bardd ac a gynhaliwyd ar lannau'r llyn o'r un enw am flynyddoedd lawer ym mis Gorffennaf. Cymerodd Lloyd Roberts ran yn yr Arwest yn gyson o dan ei enw barddol, Ioan Bangor.

Ymunodd Ted Jennings â gwasg Lloyd Roberts yn 1923 a daliodd fel cysodydd yno tan y bu farw ei feistr ar 13 Gorffennaf 1936. Pan oedd yn y swyddfa cafodd Jennings y fraint a'r orchwyl o helpu rhoi celfi, yn cynnwys y wasg Ruthven, yn perthyn i John Jones 'Pyll' Llanrwst, ar lori fel rhodd i'r Amgueddfa Wyddonol yn South Kensington, Llundain. Bu'r digwyddiad hwn yn asgwrn cynnen i drigolion y dref am y rheswm na ddylai'r wasg fod wedi ymadael yn y lle cyntaf. Sain Ffagan oedd yn gyfrifol am y symud – ac mae'r ffaith bod y celfi a gwasg Ruthven mewn darnau yn awr wedi'i guddio yn seleri Sain Ffagan yn rhoi ychydig iawn o bleser i bobl Llanrwst. Tybed, gan fod hen elusendai Syr John Wynn o Wydir wedi'u troi'n amgueddfa, a oes gobaith y daw celfi John Jones yn ôl i Lanrwst a'u hen gynefin?

Ar ôl i John Lloyd Roberts farw ar 13 Gorffennaf 1936 yn 77 mlwydd oed – bu yn gwasanaethu'r dref a'r ardal fel argraffydd am 56 mlynedd – prynodd Ted Jennings ei fusnes. Yr oedd hyn yn dipyn o fenter i gysodydd ifanc saith ar hugain oed. Symudodd y wasg i Willow Street, ond daliodd ar yr hen enw, Lloyd Roberts a'i Cyf., o barch at ei hen feistr. Bu'r adeiladau yn Willow Street yn fragdy (Brewery) yn yr 1880au, yn perthyn i Thomas Elias. Sefydlodd y wasg ar y llawr cyntaf, a dyna lle oedd y casau o deip, peiriannau o bob math a'r hen wasg *Columbian* (1848); dyma 'eilun' Ted Jennings fel argraffydd. Dipyn o wyrth i bawb oedd sut y daeth yr hen *Columbian* i'w safle – y dirgelwch, yn ôl Ted, oedd bod craen wedi codi'r wasg a'i gosod trwy ffrynt yr hen fragdy. Y peth cyntaf a welai unrhyw gwsmer ac ymwelydd oedd Ted yn gosod y teip a'i law, yn ôl yr hen draddodiad, neu yn brysur yn incio a thynnu proflenni poster i ar yr hen *Columbian*: hen draddodiad o argraffu sydd wedi diflannu erbyn hyn. Ar y llawr isod roedd hen 'Guillotine' yn perthyn i gyfnod Napoleon – y jôc, yn ôl Ted, oedd mai ei gwaith bellach oedd torri papur, nid pennau!

Gwelodd Ted Jennings chwyldroad ym myd argraffu er pan oedd yn ifanc. Yn ei amser ef gwelodd dri argraffwr wrth eu gwaith yn Llanrwst: hen wasg John Jones (Pyll) a ddaliwyd ymlaen gan O. Evans Jones, gyda 13 o weithwyr lle saif siop Bebb heddiw yn Stryd Dinbych; Gwasg E. Pugh Jones tu ôl i Ross, hefo pump o weithwyr, a Lloyd Roberts lle roedd o yn brentis gydag wyth o grefftwyr profiadol. Sonia llawer am brysurdeb Llanrwst yn y cyfnod hwnnw a'r gweisg yma i gyd yn dod a bywoliaeth i'r pentrefwyr. Diflannodd y printwyr ac hefyd y fasnach a greodd Llanrwst yn dref enwog am ei diwydiant a'i phrysurdeb yn yr hen amser.



Hen Neuadd y Dref Llanrwst a'r Sgwâr.